OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 939 (Cy.123) (C.50)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud - - 26 Mawrth 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 64(6) a 70(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, cyfeirir at Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 fel y "Ddeddf".

(3) Mae'r gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Y diwrnod penodedig

2. 1 Ebrill 2003 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau'r Ddeddf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
26 Mawrth 2003 Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**1**) 2001 c. 15.
(**2**) 1998 c. 38.